DYFARNIAD UWCH ESTYNEDIG

**9914/CS**

## BUSNES

## ASTUDIAETH ACHOS

**DYDD GWENER 29 MEHEFIN 2007**

I'w roi i ymgeiswyr ar ddechrau'r arholiad.

*CUP/T44799*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen pob darn yn yr astudiaeth achos hon cyn dechrau'r prawf. Rhoddir 60 munud o'r prawf tair awr ar gyfer darllen ac anodi'r deunydd.

| Darn | Teitl | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| A | Ynghylch GlaxoSmithKline | Addaswyd o www.gsk.com |
| B | Uchafbwyntiau'r flwyddyn | Adolygiad Blynyddol GSK 2004 |
| C | Cwmni fferyllol gorau Prydain | Addaswyd o www.motleyfool.co.uk, Gorffennaf 2005 |
| D | Gwybodaeth i Fuddsoddwyr GSK | Gwefannau www.bbc.co.uk/business a company |
| E | Cwmnïau cyffuriau 'yn creu salwch ar gyfer pob pilsen' | www.theobserver.co.uk, 3 Ebrill, 2005 |
| F | GSK yn ceisio atal proffidwyr Aids | www.bbc.co.uk/news, Chwefror 2005 |
| G | Adran Gyfiawnder yr UD yn dirwyo cwmnïau cyffuriau | www.bbc.co.uk/news |
| H | Pam mae GSK yn lle gwych i weithio? | www.company.monster.co.uk |
| I | Tueddiadau mewn niferoedd graddedigion | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |
| J | GlaxoSmithKline – Yn ceisio gwellhad am ddrwgdybiaeth y cyhoedd | Addaswyd o www.mallenbaker.net/csr. Ebrill 2003 |
| K | GSK yn ceisio cael trwydded ar gyfer pilsen ddiet y stryd fawr | Addaswyd o The Times |

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **15** tudalen brintiedig ac **1** dudalen wag.


© OCR 2007 [100/4654/9] Mae OCR yn elusen eithriedig

**Darn A**

## Ynghylch GlaxoSmithKline

Cwmni fferyllol blaengar â sail ymchwil yw GlaxoSmith Kline (GSK). Mae ganddo gyfuniad pwerus o sgiliau ac adnoddau sy'n rhoi llwyfan ar gyfer cyflawni twf cryf yn amgylchedd gofal iechyd heddiw sy'n prysur newid.

Cenhadaeth GSK yw gwella ansawdd bywyd dynol trwy alluogi pobl i wneud mwy, teimlo'n well a byw yn hirach.

Mae'r cwmni, sydd â'i bencadlys yn y DU a gweithrediadau yn yr UD, yn un o'r arweinwyr ym myd diwydiant, ac yn ôl amcangyfrifon mae ganddo saith y cant o farchnad fferyllol y byd.

Mae GSK hefyd yn arwain mewn pedwar maes therapiwtig pwysig:

- gwrth-heintiau (*anti-infectives*);
- system nerfol ganolog (*CNS*);
- resbiradol;
- gastroberfeddol (*gastro-intestinal*) /metabolig.

Yn ychwanegol, mae'n flaenllaw ym maes pwysig brechlynnau (*vaccines*) ac mae ganddo bortffolio sy'n tyfu o gynhyrchion oncoleg.

Mae gan y cwmni hefyd bortffolio Gofal Iechyd Defnyddwyr sy'n cynnwys moddion dros y cownter (*OTC*), cynhyrchion gofal y geg a diodydd gofal iechyd maethol, y mae pob un ohonynt ymhlith cynhyrchion blaenllaw'r farchnad.

Yn seiliedig ar Ganlyniadau Blynyddol 2004, roedd gan GSK werthiannau o £20.3 biliwn ac elw cyn treth o £6.1 biliwn. Roedd cyfanswm y trosiant fferyllol ychydig dros £17 biliwn a'r trosiant gofal iechyd defnyddwyr yn £3.2 biliwn.

Mae gan GSK dros 100,000 o weithwyr ledled y byd. O'r rhain, mae dros 40,000 o weithwyr ym myd gwerthu a marchnata, y llu gwerthu mwyaf yn y diwydiant. Mae tua 35,000 o weithwyr yn gweithio mewn 80 o safleoedd gweithgynhyrchu mewn 37 o wledydd ac mae dros 15,000 o weithwyr mewn Ymchwil a Datblygu (*R&D*).

Mae Ymchwil a Datblygu GSK wedi'i leoli mewn 24 o safleoedd mewn 11 o wledydd. Mae gan y cwmni safle blaenllaw mewn genomeg/geneteg a thechnolegau darganfod cyffuriau newydd. Mae gan adran Ymchwil a Datblygu GSK gyllideb o ryw £2.8 biliwn y flwyddyn.

Ffynhonnell: Addaswyd o www.gsk.com

© OCR 2007

**Darn B**

## Uchafbwyntiau'r flwyddyn

HIGHLIGHTS OF THE YEAR

### STRATEGAETH FUSNES GSK

Mae strategaeth fusnes GSK – a ddatblygwyd yn 2001 adeg yr uno – yn cyflawni canlyniadau:

- Adeiladu'r **biblinell cynhyrchion** orau yn y diwydiant
- Cyflawni **rhagoriaeth fasnachol a gweithredol**
- Gwella **mynediad at foddion** ar gyfer y rheiny na allant eu fforddio
- Gwneud GSK **y lle gorau i'r bobl orau** wneud eu gwaith gorau
- Cyfrannu at **fuddsoddi mewn cymunedau** ledled y byd
- Sicrhau bod ein penderfyniadau busnes yn ystyried **pryderon moesegol, cymdeithasol ac amgylcheddol**

### GOFALU AM YR AMGYLCHEDD

Gostyngiad o

**7%**

mewn allyriannau nwyon tŷ gwydr fesul uned o werthiannau

### PERFFORMIAD ARIANNOL

**£20biliwn**

Cynyddodd **cyfanswm y trosiant** 1% er gwaethaf colli £1.5 biliwn o werthiannau i gynhyrchion generig

**£6biliwn**

Cynnddodd **elw cyn treth** 2%


**75c**

Cynnddodd **enillion fesul cyfranddaliad** 2% yn 2004, yn unol a'n harweiniad enillion

Yr

**2il**

gwmni fferyllol mwyaf yn y byd



### PIBLINELL CYNHYRCHION

**140** **o brosiectau mewn datblygiad clinigol**

Mae'n piblinell cynhyrchion addawol ni yn un o'r mwyaf yn y wlad

**£8 miliwn** **yn cael ei wario ar Ymchwil a Datblygu bob dydd**

Mae GSK yn gwario mwy ar Ymchwil a Datblygu nag unrhyw gwmni arall yn y DU

Cynnydd o bron i **80%** mewn **Endidau Cemegol Newydd (NCEs)** yn yr arfaeth ers uno

### Y BOBL ORAU

Mae **82%** o'r rheolwyr y gwnaed arolwg ohonynt yn credu bod gweithwyr GSK yn ymrwymedig ac yn cael eu galluogi i wneud cyfraniadau ystyrlon

Mae **83 %** o reolwyr y gwnaed arolwg ohonynt yn "falch o fod yn rhan o GSK" a byddai 77% yn "falch o gyfeirio ffrind neu aelod o'u teulu i weithio i GSK"

### MYNEDIAD AT FODDION

**Caiff dros**

**475,000**

o gleifion fynediad at foddion GSK am ddim yn bennaf, trwy Raglen Cymorth cleifion yr UD


**Mae dros**

**85 miliwn**

o bobl hyd yma wedi'u hamddiffyn rhag ffilariasis lymffatig gydag albendazole wedi'i gyfrannu gan GSK

**£50 miliwn**

yw gwerth moddion a gyfrannwyd



**Mae 33miliwn**

o dabledi *Combivir* (triniaeth am HIV) wedi'u prisio'n ffafriol wedi cael eu cludo mewn llong i Affrica


### RHAGORIAETH FASNACHOL A GWEITHREDOL

**£500 miliwn**

Llwyddodd 12 cynnyrch GSK i gyrraedd gwerthiant o £500 miliwn yn 2004

**£2.5 biliwn**


yw gwerthiant *Seretide/Advair* (hyd at 19%) – cynnyrch mwyaf GSK's a'r chweched cynnyrch fferyllol mwyaf yn y byd



### BUDDSODDI MEWN CYMUNEDAU

DULL RHOI

(gan gynnwys Rhaglen Cymorth Cleifion yr UD)




**Gwerth gweithgareddau buddsoddi cymunedol byd-eang**

**£328 miliwn**

5.4% o elw cyn treth

**£21miliwn**

Rhaglenni a gweithgareddau iechyd

**£18 miliwn**

Rhaglenni a gweithgareddau addysg

Ffynhonnell: www.gsk.com

**Darn C**

## Cwmni fferyllol gorau Prydain

Roedd buddsoddi mewn cwmnïau cyffuriau'n arfer bod yn eithaf hawdd. Y cwbl oedd angen i chi ei wneud oedd dewis gwneuthurwr cyffuriau, unrhyw wneuthurwr cyffuriau, ac aros i'r cyfranddaliadau godi. Ond heddiw, mae'n llawer mwy anodd i fuddsoddwyr wneud elw o'r cyffuriau.

Ymhlith y nifer o bryderon i fuddsoddwyr mae copïau o foddion gan wneuthurwyr cyffuriau generig, achosion cyfreithiol atebolrwydd, galw cyffuriau yn ôl, tynhau ar y broses o gymeradwyo cyffuriau newydd a llywodraethau'n cyfyngu ar gyllidebau iechyd. Mae'n ddigon i wneud i unrhyw un gymryd *Prozac* a gorwedd i lawr mewn ystafell dywyll.

Gydag elw yn y dyfodol yn llai sicr, mae buddsoddwyr o ganlyniad yn llai parod i dalu cymaint am bob punt o'r enillion y mae cwmnïau cyffuriau yn eu gwneud. Ar un adeg, byddai buddsoddwyr yn fodlon talu cymaint â thri deg gwaith enillion, ond dim mwy na hynny.

Fodd bynnag, does dim amheuaeth bod gwerthiannau cyffuriau yn fyd-eang yn dal i ehangu ryw 8% y flwyddyn. Oherwydd hynny, mae digon o le i'r cwmni cywir dyfu. Felly, cyn eu canlyniadau ail chwarter yr wythnos hon, gadewch i ni edrych ar y modd y mae tri chwmni fferyllol mwyaf Prydain, GlaxoSmithKline, AstraZeneca a Shire Pharmaceuticals, yn llwyddo yn erbyn tri mesur allweddol.

1. Meysydd Therapiwtig

Mae bod yn y lle iawn gyda'r moddion iawn yn hanfodol os yw cwmni cyffuriau yn disgwyl gwneud elw o alw cynyddol. Y prif feysydd therapiwtig dros y deuddeg mis diwethaf oedd trin colesterol, gwrth-wlserau a gwrthiselyddion.

Yn hyn o beth, mae GlaxoSmithKline ac AstraZeneca yn ymddangos yn uchel. Yn yr UD, rhoddwyd cymeradwyaeth i Crestor, moddion dadleuol i leihau colestrol Astra Zeneca, ac mae ei driniaeth trin wlserau, Nexium, yn parhau i ddangos twf gwerthiant iach. Yn y cyfamser, mae GlaxoSmithKline wedi ailddechrau dosbarthu ei foddion gwrthiselydd, Paxil, yn ddiweddar ar ôl egwyl fer.

2. Ymchwil a Datblygu

Ond efallai mai'r maes pwysicaf i ganolbwyntio arno yw Ymchwil a Datblygu. Dyma sy'n cynnal y diwydiant cyffuriau gan mai trwy Ymchwil a Datblygu y caiff moddion newydd eu datblygu. Felly, a yw prif ddatblygwyr cyffuriau Prydain yn rhoi digon o arian i Ymchwil a Datblygu?

| Cwmni | Gwariant Ymchwil a Datblygu |
|---|---|
| GlaxoSmithKline | £2,800 miliwn |
| AstraZeneca | £3,800 miliwn |
| Shire | £108 miliwn |

Ac eithrio Shire, a allai o bosibl wneud yn well, rwy'n teimlo bod GlaxoSmithKline ac AstraZeneca, yn gwneud digon. Gall gymryd blynyddoedd i dalu'n llwyr am Ymchwil a Datblygu, a dyna pam dylai buddsoddwyr geisio cadw golwg agos ar biblinell cyffuriau cwmni. Dyma'r cyffuriau sy'n cael eu datblygu a allai ddod yn gynhyrchwyr refeniw allweddol rywbryd. Ar y sail hon, mae GSK heb ei ail gyda thros 45 o gyffuriau mewn treialon Cyfnod 2. Wrth gwrs, nid oes sicrwydd y bydd unrhyw un o'r rhain yn cyrraedd y farchnad neu hyd yn oed yn mynd ymlaen i dreialon diweddarach.

3. Prisiant

O ran prisiant, rhoddir gwerth tebyg i bob un o'r tri gwneuthurwr cyffuriau o tua 16 gwaith enillion, sydd fwy neu lai'n iawn i gwmnïau sy'n tyfu ar y fath gyfradd. Fodd bynnag, cyfranddaliadau yn GSK yw'r uchaf, yn cynhyrchu 3.3%.

Felly, o ran bod yn y maes therapiwtig cywir, cyllideb Ymchwil a Datblygu cryf a chynnyrch (yield) gwell, GSK sy'n cael fy mhleidlais i fel cwmni fferyllol gorau Prydain.

Gan David Kuo (*Mae gan David gyfranddaliadau yn GlaxoSmithKline*).


Ffynhonnell: www.fool.co.uk, 26 Gorffennaf 2005

**Darn D**


## Gwybodaeth i Fuddsoddwyr GSK

Pris Cyfranddaliadau GSK, ceiniogau, 2005

**GlaxoSmithKline**




**Mynegai cyfranddaliadau FTSE 100**




Data cymharol am gwmnïau'r FTSE

| | Cyfalafiad Marchnad, £miliwn (ar 28/10/05) a safle | Elw ar ôl trethiad | Ecwiti |
|---|---|---|---|
| British Petroleum | 128,175.9 (1af) | $15,961m | $76,656m |
| HSBC | 98,496.2 (2il) | $7,982m | $86,713m |
| Vodaphone | 88,396.3 (3ydd) | (£13,782m) | £99,317m |
| GSK | 88,757.5 (4ydd) | £4,418m | £62,022m |
| Tesco | 23,153.1 (15fed) | £643m | £8,782m |

£:$ cyfradd gyfnewid (ar 28/10/2005) 1:1.75

Ffynhonnell: www.bbc.co.uk, gwefannau busnes a chwmni.

**Darn E**

## Cwmnïau cyffuriau 'yn creu salwch ar gyfer pob pilsen'

Mae pŵer diwydiant cyffuriau Prydain sy'n werth biliynau o bunnoedd wedi troi'r wlad hon yn gymdeithas or-feddygol sy'n credu mewn pilsen ar gyfer pob salwch, y bydd adroddiad pwyllgor dethol Tŷ'r Cyffredin yn ei honni'r wythnos hon. Fe wnaeth y gweinidog iechyd sy'n gyfrifol am foddion gyfaddef i'r ymchwiliad: 'Rwy'n eithaf pryderus ein bod ni weithiau, fel cymdeithas, yn dymuno rhoi labeli ar bethau sydd dim ond yn rhan o'r cyflwr dynol.'

Bydd yr adroddiad yn dweud bod y biliynau o bunnoedd sy'n cael eu gwario ar Ymchwil a Datblygu a hyrwyddo cyffuriau newydd wedi creu gor-bwyslais ar driniaethau meddygol ar draul therapïau rhatach a gwell, neu ffyrdd syml o atal. Mae'r ymchwiliad saith mis yn dilyn cwynion gan grwpiau cleifion ac uwch feddygon bod lles y diwydiant yn gwyrdroi blaenoriaethau gofal iechyd.

Clywodd yr aelodau seneddol dystiolaeth am gwmnïau cyffuriau 'sy'n gwerthu afiechydon' fwy neu lai yn dyfeisio afiechydon y gallent wedyn werthu triniaethau ar eu cyfer, gydag ymddygiad cymharol normal – o iselder cymedrol (*mild*) i ysfa rywiol isel ymhlith benywod – yn cael eu hail-labelu yn gyflyrau yr oedd cyffuriau i fod yn angenrheidiol ar eu cyfer.

Disgwylir i'r adroddiad hefyd feirniadu'r broses gyfrinachol o drwyddedu moddion ym Mhrydain, yn dilyn nifer o fygythiadau (*scares*) ynghylch diogelwch lle mae wedi dod i'r amlwg bod i 'gyffuriau gwyrthiol' sgil-effeithiau difrifol. Un enghraifft a roddir yw'r moddion gwrthiselydd, Seroxat. Ym mis Tachwedd, datgelodd *The Observer* fod gwneuthurwr Seroxat, GSK yn ceisio'i farchnata fel triniaeth i wella mathau cymharol gymedrol o iselder, er gwaethaf y ffaith bod y cyffur wedi cael ei gysylltu â risg gynyddol o hunanladdiad. 'Y bwriad oedd symud gwerthiannau y tu hwnt i $1 biliwn i $2 biliwn trwy ei wthio ar bobl nad oeddent yn dioddef o iselder clinigol,' meddai'r Athro David Healy wrth Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin. Dywedodd Richard Brook, Prif Weithredwr Mind, yr elusen iechyd meddwl, wrth yr ASau fod y cynllun 'i gyd yn ymwneud â datblygu cyflyrau newydd ar gyfer y cyffur hwnnw'.

Cynyddodd presgripsiynau am Seroxat deirgwaith ar ôl ei drwyddedu ar gyfer iselder cymedrol, tra datgelodd *The Observer* yn gynharach eleni ei fod yn cael ei farchnata i feddygon fel triniaeth ar gyfer 'anhwylderau pryder cymdeithasol' amwys.

Marchnata cyffuriau

Mae cwmnïau cyffuriau wedi'u gwahardd rhag hysbysebu'n uniongyrchol i gleifion ym Mhrydain, neu gynnig llwgrwobrwyon i feddygon i roi brand penodol ar bresgripsiynau. Fodd bynnag, dywed ymgyrchwyr fod y diwydiant wedi darganfod ffyrdd 'gerila' o hyrwyddo, gan gynnwys ariannu elusennau meddygol yn hael – sydd, yn ôl yr hyn a glywodd yr ymchwiliad, yn cynyddu'r risg y byddant yn dod yn 'filwyr traed diarwybod' iddo. Mae un elusen iechyd meddwl, Depression Alliance, yn cael bron i 80 y cant o'i chyllid gan gwmnïau cyffuriau.

Dywedodd Paul Flynn, yr AS Llafur sydd wedi ymgyrchu i amlygu dylanwad y diwydiant ac a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, ei fod yn haeddu cael 'ei feirniadu'n llym' am ei arferion. 'Mae'r gymdeithas gyfan wedi cael ei chyflyru i feddwl ein bod ni'n dibynnu ar foddion.' Cyngor y Prif Swyddog Meddygol yw y dylid rhoi rhaglenni ymarfer (*exercise*) ar bresgripsiwn i lawer o gleifion sy'n dioddef o iselder yn hytrach na phils.

Roedd y Pwyllgor Dethol wedi clywed am gyffuriau yn cael eu marchnata i feddygon mewn papurau academaidd a ysgrifennwyd ar gyfer cyfnodolion meddygol. Maent yn ymddangos fel eu bod wedi cael eu hysgrifennu gan arbenigwyr annibynnol, ond maent mewn gwirionedd wedi cael eu hysgrifennu'n gudd gan y cwmnïau cyffuriau, sydd wedyn yn talu academyddion i fenthyg eu henwau i'r papurau.

Datgelodd Dr Richard Horton, golygydd y cyfnodolyn meddygol blaenllaw, y *Lancet*, ei fod wedi cael cynnig llwgrwobrwyon i bob pwrpas i gyhoeddi papurau sy'n dangos cyffuriau mewn goleuni ffafriol.

Dywedodd ef fod cwmnïau yn cynnig prynu 'cannoedd ar filoedd o adargraffiadau' – a allai fod yn werth hyd at hanner miliwn o bunnoedd i'w gylchgrawn – pe bai eu papur nhw yn cael ei gynnwys ynddo.

Fodd bynnag, roedd llefarydd ar ran Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain yn gwadu annog dibyniaeth ar gyffuriau: 'Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni erioed wedi awgrymu mai moddion yw'r unig ateb i broblemau iechyd. Y meddyg sydd bob amser yn penderfynu a oes cyflwr meddygol gwirioneddol. Mae'n gywir y dylen ni fod yn rhoi gwybod i ragnodwyr (*prescribers*) pa foddion a all fod yn berthnasol.'

Gan: Gaby Hinsliff, 3 Ebrill 2005 © Observer Guardian Newspapers Limited 2005

**Darn F**

## GSK yn ceisio atal proffidwyr Aids

Mae un o wneuthurwyr cyffuriau HIV/Aids mwyaf y byd wedi lansio menter i ymladd yn erbyn smyglo pils rhatach – sy'n cael eu cyflenwi i wledydd tlotach yn Affrica – yn ôl i Ewrop i'w hailwerthu am brisiau llawer uwch.

Mae'r cwmni, GSK, am addasu'r pecynnau a newid lliw'r pils, a ddarperir ar hyn o bryd i wledydd sy'n datblygu o dan gytundeb dyngarol (*humanitarian*).

Amcangyfrifir bod cwmnïau cyffuriau yn colli cannoedd o filiynau o ddoleri bob blwyddyn o ganlyniad i ailgyfeirio eu cynhyrchion yn y fath fodd. Mae hwn yn faes sensitif iawn i'r cwmnïau cyffuriau mawr. Mae arnynt eisiau cynnal eu helw, ond maent wedi cael eu rhoi o dan bwysau aruthrol i ddarparu cyffuriau gwrth-Aids rhad i wledydd tlotaf y byd.

O: BBC News, http://news.bbc.co.uk, 21 Chwe 2005

**Darn G**

## Adran Gyfiawnder yr UD yn dirwyo cwmnïau cyffuriau

Mae'r cwmni creu cyffuriau o'r Swistir, Serono, wedi cyfaddef ei fod yn euog o hyrwyddo'i gyffur Aids, Serostim, yn anghyfreithlon, ac mae wedi cytuno i dalu taliad llawn (*settlement*) o $704 miliwn (£398 miliwn) ag Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau.

Mae'r taliad yn ymwneud â honiadau ei fod wedi cynnig taliadau (*kickbacks*) i feddygon i ysgrifennu presgripsiynau am y cyffur er mwyn hybu gwerthiannau oedd yn gostwng. Cafodd pedwar o weithredwyr blaenorol Serono eu ditio (indicted) ym mis Ebrill ar gyhuddiadau o gynnig taliadau anghyfreithlon i feddygon am roi presgripsiwn am y cyffur. Gwnaeth y cwmni dros $90 miliwn o elw yn ystod y cyfnod o hyrwyddo anghyfreithlon, meddai'r Adran Gyfiawnder.

"Fe wnaeth Serono gamddefnyddio'r system o brofi a chymeradwyo, a rhoddodd ei awydd i werthu mwy o gyffuriau uwchlaw lles cleifion," meddai Twrnai Cyffredinol yr UD, Alberto Gonzales. Bydd yn cael ei wahardd o holl raglenni gofal iechyd ffederal yr UD am o leiaf pum mlynedd.

Taliad llawn Serono yw'r diweddaraf mewn cyfres o geisiadau 'chwythu'r chwiban' sydd wedi costio dros $3 biliwn i gwmnïau cyffuriau mawr yn y blynyddoedd diwethaf. Y mis diwethaf, cyhoeddodd cwmni mawr GSK o'r DU y byddai'n talu $150 miliwn i roi diwedd ar honiadau iddo godi gormod ar lywodraeth yr UD am gyffuriau gwrth-gyfogi (*anti-nausea*).

O BBC News, http://news.bbc.co.uk, 17 Hydref 2005

**Darn H**

## Pam mae GSK yn lle gwych i weithio?

Yn GSK, rydym ni'n cyflawni ein busnes gyda chywirdeb a gonestrwydd, ac yn anelu at ragoriaeth ym mhopeth a wnawn. Rydym yn gwybod bod ein pobl yn hanfodol i lwyddiant y busnes, ac rydym yn annog pawb i gyflawni eu potensial gorau posibl. Rydym yn cynnig pecyn buddion cystadleuol ac yn cydnabod yr angen am gydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd teuluol.

Mae GSK yn croesawu dawn pobl o gefndiroedd amrywiol i roi'r arbenigedd, yr ymroddiad a'r dychymyg i'n gyrru ymlaen tuag at ddyfodol llewyrchus. Rydym yn edrych am unigolion ag ysbryd mentrus a meddwl chwilfrydig sy'n chwilio am ystod eang o gyfleoedd ar gyfer twf, ac y caiff eu hymdrechion eu gwireddu yn sgil gwella iechyd pobl ledled y byd.

Mae GSK yn gorff cyffrous, sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa. Nod ein proses recriwtio yw cyflawni'r lefel uchaf o ofal ymgeiswyr trwy wrando ar eich diddordebau, a'ch trin fel cwsmer gwerthfawr.

Gweithgynhyrchu a Chyflenwi Byd-Eang

Mae gan GSK 107 o safleoedd gweithgynhyrchu mewn 40 o wledydd gyda thros 42,000 o weithwyr, sy'n:

- cyflenwi cynhyrchion i 191 o farchnadoedd yn fyd-eang ar gyfer GSK;
- cynhyrchu dros 1,200 o wahanol frandiau;
- gweithgynhyrchu bron 4 biliwn o becynnau bob blwyddyn;
- rheoli tua 2,000 o lansiadau cynnyrch newydd yn fyd-eang bob blwyddyn.

O ran cynhyrchion maethol, mae dros 300 miliwn o boteli Lucozade/Ribena, 350 miliwn o becynnau tetra Ribena ac 20 miliwn o duniau carbonedig Lucozade yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn. Cynnyrch (*output*) blynyddol Horlicks yw 50 miliwn cilogram, sy'n gyfwerth â thua 1,000 miliwn o gyfrannau (*servings*). Mewn gofal y geg, mae dros 600 miliwn o diwbiau o bast dannedd yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn.

Cwmni Fferyllol GSK

Byddech yn cael maddeuant am feddwl bod gan gwmni maint GSK ddiddordeb mewn gwneud elw yn unig. Ond y gwir yw bod ein corff yr un mor ymrwymedig i helpu pobl o amgylch y byd i fyw yn hirach, teimlo'n well a gwneud mwy.

Mae gennym bortffolio amrywiol o frandiau, yn ogystal â phiblinell iechyd o gyfansoddion cyffrous newydd. Bob blwyddyn, mae GSK yn buddsoddi'n drwm mewn Ymchwil a Datblygu, gyda thros 40% o hyn yn y DU. Rydym ni'n un o'r buddsoddwyr uchaf mewn gwyddoniaeth. Rydym yn arweinydd mewn pedwar prif faes therapiwtig ac mae gennym gyfran o ryw 13% o farchnad nwyddau fferyllol y DU.

Mae adran Fferylliaeth y DU yn cyflogi dros 2,000 o bobl i hyrwyddo moddion GSK ac ystod o wasanaethau gwerth ychwanegol i gwsmeriaid ledled y DU.

Caiff y llwyddiant parhaus hwn ei gyflawni trwy fod yn arweinydd cyfrifol, sy'n ymrwymedig i weithio gyda gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, gwrando ar gleifion ac ymateb i amgylchedd sy'n newid.


Ffynhonnell: www.jobsite.co.uk

© OCR 2007


**Darn I**

## Tueddiadau mewn niferoedd graddedigion

**Nifer y graddedigion cemeg gradd gyntaf (1995/96–2003/04)**




**Nifer y graddedigion gradd gyntaf (1995/96–2003/04**




Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

© OCR 2007

**Darn J**

## GlaxoSmithKline – Yn ceisio gwellhad am ddrwgdybiaeth y cyhoedd

Mae dilema gwirioneddol yn wynebu cwmni fel GlaxoSmithKline. Ar yr un llaw, mae'r cwmni'n creu nwyddau sy'n amlwg yn ddymunol yn gymdeithasol – moddion. Mae cynhyrchion y cwmni yn arbed ac yn gwella bywydau. Onid yw'n afresymol o hawdd wedyn i'r cwmni uno o amgylch cenhadaeth i wella ansawdd bywyd, a thanio rhai o'r doniau gorau yn y byd i wneud elw yn yr achos hwn.

Ond yn hynny mae'r broblem. Mae nifer sylweddol o sylwebwyr, sefydliadau anllywodraethol (*NGOs*) a'r cyhoedd wedi dod i gredu bod rhywbeth yn reddfol annifyr am gwmni sy'n achub bywydau yn gwneud elw o gwbl. Pan fo cynifer o bobl yn marw yn sgil y tlodi gwaethaf yn y byd, sut gall unrhyw gwmni sydd â chalon anelu at wneud elw ar eu traul nhw?

Mae'r dilema wedi cael gafael gadarn ar y diwydiant fferyllol cyfan dros y blynyddoedd diwethaf – sut mae cwmni sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn ymateb i'r fath set well o ddisgwyliadau cymdeithasol?

I gael ateb i hyn, gallai rhywun ddechrau trwy edrych ar adroddiad cymdeithasol ac amgylcheddol diweddar GlaxoSmithKline – ei ail adroddiad. Wedi'r cyfan, os yw adroddiadau o'r fath am fod o werth gwirioneddol, dylent allu mynd i'r afael â'r fath argyfwng o ddisgwyliadau.

Nid oes angen dweud bod y cwmni yn cadarnhau sail y disgwyliadau o ddatganiad agoriadol y prif weithredwr. "Mae cyfrifoldeb corfforaethol yn rhan annatod o'n busnes – mae'n reddfol yng nghenhadaeth y cwmni. Mae GSK yn gwneud cyfraniad cadarnhaol arwyddocaol at gymdeithas ledled y byd, trwy'r moddion, y brechlynnau a'r cynhyrchion gofal iechyd yr ydym yn ymchwilio iddynt, yn eu datblygu, yn eu cynhyrchu ac yn eu gwerthu."

Mae ei adroddiad yn dechrau ag effaith fuddiol un o'i gynhyrchion craidd. Mae disgwyliadau'r gymdeithas wedi newid. Mae afiechydon a oedd ar un adeg yn cael effaith ddinistriol, bellach yn cael eu rheoli, ac mae hyn wedi achosi i lawer yn y byd datblygedig gymryd iechyd da yn ganiataol. Mae hwn yn bwynt teg yn hytrach nag yn bwynt sy'n aml yn cael ei anwybyddu gan feirniaid y sector.

Mae'r cwmni'n cydnabod bod y disgwyliadau newidiol hynny bellach wedi arwain at holi cwestiynau ynghylch ei foddion. Yn sgil rhai pryderon, cyflwynodd gynllun y cerdyn oren yn yr Unol Daleithiau i roi gostyngiadau ar gyfer pobl sydd ar incwm isel. Mae wedi arwain at raglen weithredol o ostwng prisiau ar gyfer cyffuriau hanfodol mewn gwledydd sy'n datblygu – i gorws byddarol o ganmoliaeth a beirniadaeth chwerw.

"Mae GSK yn ymrwymedig i gyfrannu at wella iechyd mewn modd cynaliadwy, felly rydym yn gosod ein prisiau ffafriol ar lefelau sy'n talu am gostau uniongyrchol ond nad ydym ni'n gwneud elw arnynt. Fel hyn, gallwn ni gynnig y prisiau hyn am y cyfnod y bydd angen triniaeth ar gleifion."

Roedd buddsoddiad cymunedol a chyfraniadau elusennol y cwmni yn 2002 yn gwneud cyfanswm o £239 miliwn, ac roedd £112 miliwn o hyn yn gysylltiedig â Rhaglen Cymorth Cleifion y cwmni ar gyfer cleifion sydd dan anfantais yn ariannol yn yr UD.

O ran ymchwil a datblygu, mae'r cwmni'n mynd i'r afael â'r materion yn ymwneud ag ymchwil sy'n defnyddio anifeiliaid, gan ddadlau mai ei ymagwedd yw lleihau'r defnydd o anifeiliaid mewn ymchwil lle bynnag bo hynny'n bosibl, i fireinio'r defnydd hwn i sicrhau perthnasedd ac i wneud arbrofion o fathau eraill yn lle arbrofion ar anifeiliaid lle gellir caniatáu hynny (mae'n ofyniad cyfreithiol i'r cwmni gynnal profion moddion ar anifeiliaid cyn rhyddhau'r moddion hynny). Darperir ffigurau sy'n dangos defnydd weddol sefydlog o anifeiliaid mewn profion yn erbyn proffil sy'n codi'n barhaus ar gyfer faint o waith ymchwil a datblygu a wneir.

© OCR 2007 

Mae ffigurau yn dangos mai pobl ddu (‘people of colour’) yw 19% o’r gweithlu o 24,000 yn yr Unol Daleithiau. Mewn uwch reolaeth fyd-eang, mae 81 y cant yn ddynion, ac 19 y cant yn fenywod.

O ran hawliau dynol, mae’r cwmni wedi cynnal adolygiad mewnol ac wedi datgan ei fod yn cydymffurfio, lle bynnag mae’n gweithredu, fel cyflogwr gyda’r Datganiad Byd-Eang a chonfensiynau craidd y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Mae’r cwmni wedi rhoi ‘gofynion gorfodol’ ar waith i sicrhau bod contractwyr a chyflenwyr mawr yn mabwysiadu’r un safonau.

O ran perfformiad amgylcheddol, mae’r cwmni wedi targedu nifer o allyriannau ar gyfer eu lleihau, megis carbonau organig anweddol a CFCau. Ni sonnir am nwyon tŷ gwydr na newid hinsawdd.

Ffynhonnell: www.mallenbaker.net, Ebrill 2003

© OCR 2007

**[Trowch y dudalen**

**Darn K**

## GSK yn ceisio cael trwydded ar gyfer pilsen ddiet y stryd fawr

Mae cwmni cyffuriau mwyaf Prydain wedi gofyn i gwmni Adran Weinyddu Bwyd a Chyffuriau (*FDA*) yr UD drwyddedu fersiwn dos-isel o Xenical. Os bydd y cais yn llwyddiannus, GSK fydd y cwmni cyffuriau cyntaf i farchnata pilsen dros y cownter ar gyfer colli pwysau sydd wedi'i chymeradwyo gan yr FDA. Ond, yn gyntaf mae rheoleiddwyr yn debygol o ymgynghori ag arbenigwyr allanol cyn penderfynu a ddylid cymeradwyo Xenical ar gyfer defnydd dros y cownter ai peidio.

Dywedodd llefarydd ar ran GSK ddoe ei fod yn gobeithio lansio'r cyffur ar yr amod nad oedd yn dod ar draws unrhyw broblemau annisgwyl funud olaf gyda rheoleiddwyr. Daw'r datblygiad hwn ar ôl i'r cwmni fferyllol mawr brofi fersiwn 60-miligram o Xenical, sy'n atal y perfeddyn (*gut*) rhag amsugno braster, ar gleifion mewn treial a gynlluniwyd yn arbennig.

Yn yr arbrawf, fe wnaeth un o bob tri pherson oedd ar ddiet a gymerodd y bilsen dros gyfnod o bedwar mis golli dros 5 y cant o'u pwysau cychwynnol, tra collodd dros hanner ohonynt dros 3 y cant. Fe wnaeth gwirfoddolwyr hefyd gofnodi lefelau colesterol is a llai o broblemau â phwysedd gwaed, meddai GSK. Mae'n credu bod llawer o Americanwyr sydd efallai'n amharod i fynd i weld eu meddyg am gyffur presgripsiwn, yn debygol o roi cynnig ar y fersiwn dros y cownter. Dywedodd y cwmni y byddai'r bilsen yn cael ei phecynnu fel rhan o raglen a fyddai hefyd yn cynnwys cyngor dietegol a chyfundrefn ymarfer corff.

Dywedodd James Anderson, Athro Meddygaeth a Maetheg Glinigol ym Mhrifysgol Kentucky, ei fod wrth ei fodd â'r canlyniadau: “Mae nifer yr unigolion gordrwm yn America yn parhau i gynyddu bob blwyddyn ac mae perygl mawr y bydd y bobl hyn yn mynd yn ordew.” Mae Adran Iechyd a Gwasanaethau Dynol yr UD yn amcangyfrif bod dros 130 miliwn o Americanwyr yn ordrwm neu'n ordew. Gall problemau â phwysau arwain at glefyd y galon, diabetes a phwysedd gwaed uchel.

Gan Richard Irving © The Times, Llundain, 18 Hydref 2005

**TUDALEN WAG**

*Cydnabyddiaeth Hawlfraint*

| | |
|---|---|
| Darn A | *addaswyd o GlaxoSmithKline*, www.gsk.com |
| Darn B | © GlaxoSmithKline, www.gsk.com |
| Darn C | o David Kuo, *Britain's Best Pharma*, 26 Gorffennaf 2005, www.fool.co.uk |
| Darn D | ffynhonnell www.bbc.co.uk, gwefannau busnes a chwmni |
| Darn E | o: Gaby Hinsliff, *Drugs firms 'creating ills for every pill'*, The Observer, 3 Ebrill 2005 © Guardian Newspapers Limited 2005, http://observer.guardian.co.uk |
| Darn F | o Dan Isaacs, *GSK aims to stop Aids profiteers*, 21 Chwe 2005 © BBC News, http://news.bbc.co.uk. Atgynhyrchwyd trwy ganiatâd caredig BBC News Online. |
| Darn G | o BBC News, *Serono admits Aids drug charges*, 17 Hydref 2005 © BBC News, http://news.bbc.co.uk. Atgynhyrchwyd trwy ganiatâd caredig BBC News Online. |
| Darn H | ffynhonnell www.jobsite.co.uk, © GlaxoSmithKline, www.gsk.com |
| Darn I | © Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), www.hesa.ac.uk |
| Darn J | o © Mallen Baker, *GlaxoSmithKline – Seeking a cure for public mistrust* (Erthygl o Business Respect, rhifyn 54), 20 Ebrill 2003, www.mallenbaker.net |
| Darn K | o Richard Irving, *GSK seeks licence for high-street diet pill* © The Times, London, 18 Hydref 2005, www.timesonline.co.uk |

Lle bo'n bosibl, ceisiwyd a chliriwyd caniatâd i atgynhyrchu eitemau lle y cynhwysir deunydd sy'n berchen i drydydd parti ac sydd wedi'i warchod gan hawlfraint. Gwnaed pob ymdrech rhesymol gan y cyhoeddwr (OCR) i olrhain deiliaid hawlfraint, ond os oes unrhyw eitemau y mae angen eu clirio wedi'u cynnwys yn anfwriadol, bydd y cyhoeddwr yn falch o wneud iawn am hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group. Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.